Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gofalu am eich Profion Darn

## Yr Adran Dermatoleg

### Gofalu am eich Profion Darn

Rydym wedi creu'r daflen hon i roi cyngor i chi ar yr hyn y dylech ei wneud ar ôl rhoi eich Profion Darn.

### Cadwch y profion darn yn sych

Mae'n rhaid cadw ardal eich cefn lle dodwyd y clytiau yn sych tan eich apwyntiad terfynol. Peidiwch â chael cawod.
Cewch fynd i fath bas ond heb ddŵr poeth nac ager

### Osgowch chwaraeon

Dylid osgoi ymarfer corff sy'n cynnwys llawer o symud eich breichiau neu chwysu gormodol. Nid ddylai gweithio fod yn broblem.

### Plicio'r clytiau

Gofynnwch i rywun wirio bod eich clytiau yn ddiogel yn eu lle. Os ydynt yn dechrau plicio dylid eu gludo eto.

### Dillad

Rydym yn eich cynghori i wisgo hen ddillad tywyll, er enghraifft, bra, crys isaf a chrys neu flows tra rydych yn cael eich prawf darn. Gall y pen marcio rydym yn ei ddefnyddio staenio ac mae rhai o'r sylweddau prawf a ddefnyddir yn gallu gollwng drwy'r stribed prawf gan achosi staenio.

Gwisgwch grys isaf neu gris-T yn y gwely: bydd hyn yn eich helpu i atal y clytiau rhag plicio yn y gwely.

## Y darlleniad

Caiff y clytiau a ddodir heddiw eu tynnu ymhen ddeuddydd a byddwn yn nodi'r canlyniadau.  Yn ddibynnol ar y canlyniadau hyn mae'n bosib y gosodwn ragor o glytiau.

## Yn ystod eich ymweliad terfynol

Pan ddewch am eich ymweliad terfynol, bydd y meddyg yn dweud canlyniadau eich profion wrthych a chewch unrhyw daflenni gwybodaeth sy'n berthnasol i chi.  Bydd y meddyg hefyd yn eich helpu ac yn eich cynghori am eich cyflwr croen a'r driniaeth os na cheir bod alergedd. Caiff y canlyniadau eu hanfon at y meddyg a'ch cyfeiriodd ar gyfer Profion Darn ac, os oes angen, cewch eich atgyfeirio yn ôl at y meddyg hwnnw i barhau gyda'ch gofal.  Caiff eich meddyg teulu wybod hefyd.

O bryd i'w gilydd caiff canlyniad cadarnhaol ei ohirio:

Os profwch adwaith newydd yn ystod y ddwy wythnos ar ôl eich Profion Darn a hoffech ragor o gyngor, ffoniwch y Clinig Profion Darn ar 01633 - 238962.

## Am ragor o gyngor ffoniwch:

01633 238962 a siaradwch ag un o'r nyrsys profion darn.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**